

2016 Rhif 1159 (Cy. 280)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076
(Johnston i Bont Fadlen,
Hwlffordd, Sir Benfro)
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro
a Dim Goddiweddyd) 2016

Gwnaed

28 Tachwedd 2016

Yn dod i rym

1 Rhagfyr 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a’i wahardd ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd ac oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Johnston i Bont Fadlen, Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2016.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr

ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 50 mya parhaol i'r gogledd o Johnston hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30 mya parhaol i'r de o Bont Fadlen, Hwlffordd, sy'n bellter o 2.3 cilometr;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

Cymhwyso

7. (1) Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

28 Tachwedd 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.